Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Pennant,
Penybont Fawr,
Croesoswallt,
Powys,
SY10 0NT

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2011**

**gan**

**Dr David Gareth Evans**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Pennant ym mhentref gwledig Penybont Fawr ger tref Llanfyllin, Powys a gwasanaetha'r pentref a'r ardal gyfagos. Mae 61 o ddisgyblion, rhwng 4-11 oed, ar y gofrestr. Mae mwyafrif helaeth y disgyblion wedi derbyn addysg gyn ysgol.
Nid yw'r ardal lle lleolir yr ysgol yn un ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Mae llai nag un y cant o'r disgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim, ac mae hyn o dan y cyfartaleddau cenedlaethol a lleol.

Derbynia'r ysgol ddisgyblion ar draws yr ystod gallu. Mae saith disgybl, sef 11% o'r disgyblion ar y gofrestr, wedi ei harenwi gan yr ysgol fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig, ac mae hyn o dan y cyfartaleddau cenedlaethol a lleol. Nid oes disgybl ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Saesneg yw'r brif iaith a siaredir yng nghartrefi mwyafrif helaeth y disgyblion. Prif nod polisi iaith yr ysgol yw sicrhau bod y disgyblion yn ddwyieithog cyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

Arolygwyd yr ysgol yn flaenorol ym mis Hydref, 2005. Apwyntiwyd y pennaeth gweithredol presennol yn 2009.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Pennant yw £3,496, sy'n cymharu gydag uchafswm o £11,812 ac isafswm o £2,891 ar gyfer ysgolion cynradd ym Mhowys. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 55ed uchaf o'r 101 ysgol gynradd ym Mhowys.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae Ysgol Gynradd Pennant yn ysgol dda oherwydd bod:

- llawer o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig, yn gwneud cynnydd da yn ystod eu hamser yn yr ysgol;
- disgyblion yn cyflawni canlyniadau cyffredinol dda yng nghyfnod allweddol 2 ac mae canlyniadau cyfnod allweddol 1 yn gwella;
- ymddygiad y disgyblion yn arbennig o dda;
- yr ysgol yn hyrwyddo lles disgyblion yn dda;
- yr ysgol yn darparu ystod gyfoethog ac amrywiol o brofiadau dysgu; a bod
- cryfderau arwyddocaol yn yr addysgu;

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- arweinyddiaeth strategol y pennaeth gweithredol yn creu hyder, ymddiriedaeth a chydweithrediad o fewn cymuned yr ysgol;
- holl staff yr ysgol yn cydweithio'n effeithiol iawn fel tîm i weithredu gweledigaeth glir y pennaeth gweithredol;
- y broses hunan-arfarnu a'r cynllun datblygu ysgol yn canolbwyntio'n gadarn ar godi safonau; a bod
- ethos o welliant parhaus yn yr ysgol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

A1 godi safonau sillafu yn Saesneg yng nghyfnod allweddol 2;

A2 codi lefel y sialens i gwrdd ag anghenion y disgyblion mwyaf galluog;

A3 parhau i wella asesu ar gyfer dysgu, yn enwedig o ran sicrhau cysondeb ar draws dosbarthiadau, a gwella ansawdd y marcio; a

A4 sicrhau bod yr ysgol yn bodloni gofynion statudol o ran 'Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni'.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

*Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.*

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae nifer y disgyblion sydd yn y garfan i'w hasesu ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn flynyddol yn amrywio, ac yn aml iawn yn isel. Golyga hyn bod canlyniadau un neu ddau ddisgybl ar adegau'n medru dylanwadu'n drwm ar berfformiad y garfan.

Yn gyffredinol, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae disgyblion cyfnod allweddol 1 wedi cyflawni ar lefel uwch o gymharu â chyfartaleddau lleol a chenedlaethol, ond mae perfformiad yr ysgol wedi bod ar lefel isel o gymharu ag ysgolion tebyg ac ysgolion y teulu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae perfformiad disgyblion cyfnod allweddol 2 wedi bod ar lefel uchel o gymharu â chyfartaleddau lleol, cenedlaethol ac ysgolion tebyg a rhai'r teulu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn 2010, roedd bechgyn yn perfformio'n well na'r merched ym mathemateg yng nghyfnod allweddol 1, ond nid oedd unrhyw wahaniaethau amlwg yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r disgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim ac sydd ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd disgwyliedig yn unol â'u hoed a gallu. Fodd bynnag, nid yw disgyblion mwyaf galluog yr ysgol bob amser yn cyflawni ar lefel sy'n cyfateb i'w gallu.

Gwelir cynnydd da yn gyffredinol yng nghyflawniad disgyblion yn eu gwaith, eu llyfrau ac yn y sesiynau arsylwi. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n dda ac yn parchu cyfraniadau ei gilydd. Mae medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn dda. Maent yn siarad yn hyderus a gallant egluro yn glir beth maent yn ei ddarllen a hefyd am eu bywyd yn yr ysgol.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion hŷn yn darllen yn hyderus ac yn rhugl yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r mwyafrif yn ysgrifenwyr cymwys ond, o bryd i'w gilydd, mae'r adnoddau a ddefnyddiant yn cyfyngu ar faint o ysgrifennu estynedig a chreadigol y gallant ei wneud. Fodd bynnag, ceir enghreifftiau diddorol o ysgrifennu arloesol a chreadigol, er enghraifft mewn barddoniaeth ac mewn prosiectau gwaith cartref. Mae medrau sillafu lleiafrif y disgyblion yn yr iaith Saesneg yn ansicr.

Mae mwyafrif y disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn ysgrifennu mewn ffurfiau amrywiol ac at wahanol ddibenion, gan ddangos y gallu i amrywio arddull. Yn gyffredinol, mae gan ddisgyblion afael gadarn ar reolau gramadeg ac mae llawer yn gwneud defnydd da o derminoleg pwnc berthnasol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion drwy'r ysgol yn gweithio yn annibynnol gan wneud defnydd da o'u hamser ac yn cadw ar dasg. Maent yn arddangos brwdfrydedd ac agwedd bositif tuag at ddysgu. Mae medrau meddwl llawer o'r disgyblion yn datblygu'n llwyddiannus yn y ddau gyfnod allweddol.

Mae datblygiad y Gymraeg a meithrin dwyieithrwydd yn gryfderau yn yr ysgol hon gyda phob disgybl yn dilyn rhaglen astudio Cymraeg fel iaith gyntaf. Mae'r disgyblion o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu i fod yn rhugl o fewn byr amser ac mae'r cwricwlwm Cymreig yn greiddiol i waith ac ethos yr ysgol.

Gwna lawer o ddisgyblion ddefnydd effeithiol o rifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm.

**Lles: Da**

Mae'r disgyblion i gyd yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn troi'n hyderus at oedolion am gymorth a chyfarwyddyd. Maent yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol ac yn deall hanfodion bwyta'n iach a bod hyn yn cyfrannu at gorff a meddwl iach.

Mae disgyblion o bob oed yn cyd-chwarae'n hapus amser egwyl a chinio. Maent yn datblygu'n unigolion cyflawn a gweithgar sy'n barod eu cyfraniad i waith yr ysgol o fewn eu dosbarthiadau ac mewn gweithgareddau cymunedol.

Mae agwedd y disgyblion at ddysgu yn gadarnhaol. Maent yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd yn eu gwersi a'u gweithgareddau.

Roedd presenoldeb am y tri thymor cyn yr arolwg yn 94.6% ac mae hyn yn uwch na'r ffigurau lleol (93.9%) a chenedlaethol (93.1%). Ni fu unrhyw absenoldebau heb eu hawdurdodi yn ystod y flwyddyn. Mae hyn hefyd yn is na'r ffigurau lleol a chenedlaethol. Mae disgyblion yn cyrraedd yn brydlon yn yr ysgol ac i'r sesiynau dysgu.

Mae ymddygiad bron pob disgybl yn dda. Maent yn gwrtais i'w gilydd a chydag oedolion ar bob achlysur. Mae'r mwyafrif yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol megis clybiau chwaraeon wythnosol a gweithgareddau'r Urdd.

Mae'r cyngor ysgol yn weithgar ac yn cyfrannu'n bositif at fywyd yr ysgol. Mae disgyblion yn meithrin dealltwriaeth dda o agweddau fel yr ysgol werdd, ac mae mentrau fel yr ymgyrch leihau ac ailgylchu gwastraff wedi codi eu hymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â'r gymuned leol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn paratoi ystod eang iawn a chytbwys o brofiadau ysgogol i'r holl ddisgyblion sy'n ymateb yn llawn i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu wedi ei chynllunio'n fanwl, gyda dilyniant clir o ran parhad a chynnydd. Mae'r ddarpariaeth ar draws yr ysgol yn arbennig o effeithiol wrth ddatblygu medrau meddwl y disgyblion. Mae cynllunio da ar gyfer ymweliadau addysgol ac ymwelwyr â'r ysgol sy'n cyfoethogi'r rhaglenni dysgu. Mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol iawn ar gynnydd a chyflawniad y disgyblion. Yn ogystal, mae'r ysgol wedi datblygu

cysylltiadau gydag ystod o sefydliadau lleol sy'n rhoi profiadau amrywiol a pherthnasol i'r disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn gyfoethog ar draws yr ysgol. Mae'r elfen hon yn ganolog i holl waith a bywyd yr ysgol. O ganlyniad, mae gwybodaeth ac ymwybyddiaeth y disgyblion o'u lleoliad, eu hardal a Chymru yn datblygu mewn ffordd arbennig o dda.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang wedi ei ddatblygu'n drwyadl ar draws y cwricwlwm ac hefyd yng ngweithgareddau'r cyngor eco, ac mae'r ysgol wedi derbyn achrediad y Faner Werdd. Darperir cyfleoedd amrywiol i'r disgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth drwy weithgareddau sy'n hybu ailgylchu, monitro defnydd o ddŵr ac ynni a gwella amgylchedd yr ysgol. Mae amgylchedd allanol yr ysgol yn datblygu i fod yn gyfraniad gwerthfawr i brofiadau'r disgyblion.

Mae cysylltiadau da gydag ysgolion mewn gwledydd eraill ac mae'r ysgol yn rhan o gynllun Comeniws. Mae gwaith elusennol yr ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn dda ac mae hyn yn ennyn diddordeb ac ymrwymiad y disgyblion. Mae gan yr athrawon wybodaeth drylwyr am y meysydd dysgu a'r cwricwlwm. Maent yn ysgogi'r disgyblion yn dda ac yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u targedau. Mae cynlluniau pwrpasol wedi eu darparu ar draws yr ysgol.

Gwneir defnydd effeithiol o gwestiynu da i sicrhau cynnydd, ond nid yw'r cwestiynu bob amser yn heriol ar gyfer y disgyblion mwyaf galluog.

Mae ethos gweithgar a hapus ac ymdeimlad o barch yn nodweddion amlwg yn y dosbarthiadau. Yn gyffredinol, mae'r cymorthyddion dosbarth yn rhoi cefnogaeth dda i'r disgyblion, ac y maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'r athrawon dosbarth. Ar adegau mae'r marcio'n dda, yn adeiladol ac yn nodi'r hyn sydd ei angen er mwyn gwella, ond nid yw hyn yn gyson ar draws yr ysgol. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar waith ac yn datblygu'n araf.

Asesir cyrhaeddiad disgyblion yn rheolaidd ac mae'r canfyddiadau yn cael eu dadansoddi'n fanwl i olrhain cynnydd. Mae'r ysgol yn defnyddio proses fewnol i dracio cynnydd y disgyblion. Mae'r ysgol yn cymedroli gwaith yn gyson er mwyn sicrhau cysondeb yn yr asesu; gwneir hyn ar lefel ysgol yn ogystal â safoni manwl yn y pynciau craidd.

Derbynia rhieni wybodaeth am gyflawniad a chynnydd eu plant ar ffurf adroddiad blynyddol ac mewn tri chyfarfod blynyddol. Mae'r adroddiadau yn eglur ac yn cynnig targedau ar gyfer gwelliant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo lles disgyblion yn dda. Rhoddir pwyslais priodol ar ddeiet iach a gweithgareddau corfforol i hybu lles corfforol disgyblion. Mae disgwyliadau'r ysgol yn uchel o ran presenoldeb ac mae gweithdrefnau effeithiol mewn lle i ddelio yn brydlon ag absenoldebau heb eu hegluro. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer iechyd, diogelch a hylendid yn dda.

Mae ystod briodol o bolisïau mewn lle i hybu lles plant, gan gynnwys trefniadau addas ar gyfer atal bwlio. Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu. Darperir profiadau dysgu da ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion, gan gynnwys cyfleoedd effeithiol i ddysgu am gredoau eraill. Mae darpariaeth yr ysgol yn hybu datblygiad y disgyblion i gydweithio ag eraill ac maent hwy, a'r gymuned leol, yn elwa o'r ystod eang o gyfleoedd all-gwricwlaidd a ddarperir.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion addysgol arbennig yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ac mae'r cydlynydd yn datblygu perchnogaeth dda o'r maes. Mae'r ysgol yn cynnal cysylltiadau effeithiol ag asiantaethau arbenigol sy'n sicrhau budd i'r disgyblion. Darperir cynlluniau addysg unigol da ac mae'r adolygiadau cynnydd yn sicrhau mewnbwn priodol gan randdeiliaid, gan gynnwys rhieni ac asiantaethau allanol.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae'r ysgol yn hybu ethos gynhwysol ac mae ystod briodol o bolisïau a gweithdrefnau yn eu lle i hyrwyddo cydraddoldeb a hawl gyfartal i'r cwricwlwm. Caiff cefndir disgyblion ei werthfawrogi ac mae'r gweithdrefnau i atal ymddygiad gormesol, megis bwlio, yn effeithiol iawn. Trwy gydweithio ag aelodau o'r gymuned leol a gwahanol brofiadau addysgol y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol, mae gan y disgyblion ddealltwriaeth glir o faterion yn ymwneud â chydraddoldeb.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r adeilad a'r tir yn effeithiol ac maent yn cael eu cynnal yn dda. Mae ansawdd yr adnoddau'n dda yn y dosbarthiadau a chânt eu defnyddio â phwrpas i gefnogi anghenion dysgu disgyblion.

Er enghraifft, mae gan yr ysgol gyflenwad da o gyfarpar technoleg gwybodaeth sy'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol i wella'r ddarpariaeth a chodi safonau yn y maes.

Gwneir defnydd effeithiol o ofod mewnol yr ysgol ac mae'r ardaloedd dysgu yn symbylol a lliwgar. Rhoddir bri ar waith disgyblion drwy arddangosfeydd priodol sy'n dathlu llwyddiannau a chynnydd.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae gan y pennaeth gweithredol weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol i ddatblygu'r disgyblion i'w llawn potensial, ac i fod yn unigolion hyderus sy'n credu ynddynt eu hunain. Mae'n rhannu'r weledigaeth honno'n llwyddiannus iawn ac yn creu hyder,

ymddiriedaeth a chydweithrediad ymhlith staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion. Mae hi'n rhoi cyfeiriad strategol eglur i fywyd a gwaith yr ysgol, sy'n cael dylanwad cadarnhaol ar safonau a lles y disgyblion.

Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn canolbwyntio'n briodol ar faterion gwella perfformiad, gan gynnwys y blaenoriaethau gwelliant. Yn gyffredinol, mae'r staff yn deall ac yn cyflawni eu rolau mewn perthynas â nodau a chynlluniau'r ysgol yn effeithiol. Defnyddir data yn dda i ddadansoddi a monitro perfformiad.

Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad priodol sy'n helpu staff i wella eu harferion. Mae'r trefniadau yn arwain at dargedau addas sy'n cwmpasu anghenion hyfforddi a datblygu unigolion a blaenoriaethau ysgol gyfan.

Mae gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth glir o berfformiad yr ysgol. Mae'r aelodau yn deall y materion sy'n codi o gymharu'r perfformiad ag ysgolion tebyg. Mae'r corff yn cyfrannu'n briodol at y trefniadau hunan-arfarnu a blaenoriaethu gwelliannau. Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol fel cyfeillion beirniadol ac mae trefniadau addas yn eu lle i adrodd i rieni a delio â chwynion. Nid yw'r corff llywodraethol yn cwrdd â'r holl ofynion statudol ar gyfer adroddiad blynyddol y llywodraethwyr i'r rhieni.

**Gwella ansawdd: Da**

O dan arweinyddiaeth egniol a medrus y pennaeth gweithredol, mae diwylliant hunan-arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn datblygu'n dda o fewn yr ysgol. Ceir ystod dda o weithgareddau monitro gan y pennaeth gweithredol, athrawon a'r disgyblion hŷn. Caiff yr holl staff ac aelodau'r corff llywodraethol gyfleoedd i gyfrannu at y broses hunan-arfarnu.

Dehonglir gwahanol fathau o ddata yn effeithiol er mwyn cael darlun clir o gynnydd a chymhelliant disgyblion a gosodir targedau addas. Gwneir defnydd da o gefnogaeth ymgynghorwyr yn y broses. Mae dogfen hunan-arfarnu'r ysgol yn gynhwysfawr a defnyddiol ac yn rhoi darlun clir o'r ysgol fel mae ar hyn o bryd.

Ceir cysylltiad cryf rhwng y broses hunan-arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant a defnyddir y wybodaeth a gesglir yn effeithiol wrth gynhyrchu cynllun datblygu ysgol clir a chynhwysfawr.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda ag ysgolion cyfagos ac wedi datblygu rhwydweithiau effeithiol o arfer proffesiynol. Mae hyn wedi arwain at welliannau mewn cynllunio cwricwlaidd a datblygiadau gwerthfawr yn y trefniadau ar gyfer lles y disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaethau effeithiol gyda rhieni a gofalwyr. Ceir trefniadau trosglwyddo da gyda'r feithrinfa leol. Mae cysylltiadau da a threfniadau trosglwyddo pwrpasol gyda'r ysgol uwchradd gydag amryw o weithgareddau effeithiol wedi eu trefnu. Ceir gwaith safoni a chymedroli addas yn digwydd yn y pynciau craidd. Ceir partneriaethau cryf gyda busnesau a'r gymuned leol.

Trefnir ymweliadau effeithiol â mannau lleol ac mae aelodau o'r gymuned yn ymweld i rannu profiadau gyda'r disgyblion yn rheolaidd. Mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiol ddigwyddiadau lleol fel eisteddfodau, gwasanaethau, cyngherddau a sioeau. Mae'r berthynas glos hon yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn effeithiol iawn.

**Rheoli adnoddau: Da**

Yn gyffredinol gwneir defnydd priodol o amser a phrofiad athrawon a chymorthyddion. Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol i addysgu'r cwricwlwm ac mae cyfraniad y cymorthyddion dysgu yn y dosbarthiadau yn effeithiol. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn adnabod anghenion datblygu'r staff ac mae'r ddarpariaeth ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu yn addas. Caiff adeiladau'r ysgol eu cynnal i safon uchel ac mae ystod ac ansawdd yr adnoddau dysgu yn dda. Caiff adnoddau ariannol eu dyrannu'n briodol yn erbyn y blaenoriaethau mae'r ysgol wedi eu hadnabod.

Yng nghyd-destun y deilliannau mae'r ysgol yn sicrhau ar gyfer disgyblion mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1: Sylwadau ar Ddata Perfformiad.

Mae llawer o'r disgyblion yn cychwyn yr ysgol gyda medrau sydd yn agos at, neu'n uwch na'r, lefelau disgwyliedig. Yn ystod eu hamser yn y Cyfnod Sylfaen maent yn gwneud cynnydd da.

Mae nifer y disgyblion sydd yn y garfan i'w hasesu ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn flynyddol yn amrywio, ac yn aml iawn yn isel. Golyga hyn bod canlyniadau un neu ddau ddisgybl ar adegau'n medru dylanwadu'n drwm ar berfformiad y garfan.

Yng nghyfnod allweddol 1, yn gyffredinol, yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf, mae disgyblion saith mlwydd oed yn perfformio'n well na disgyblion eraill phan yn cymharu â chyfartaleddau Cymru a lleol. Mae hyn oherwydd y nifer sy'n llwyddo i gael y lefel ddisgwyliedig, sef lefel 2, yn y tri phwnc craidd, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth, gyda'i gilydd. Fodd bynnag, ni fu perfformiad y disgyblion cystal yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf pan yn cymharu â'r ganran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae eu perfformiad pryd hynny ymhlith y 50% isaf ym mathemateg a'r dangosydd pwnc craidd, sef y lefel disgwyliedig yn y tri phwnc craidd, mewn tair o'r bedair blynedd ddiwethaf. Roedd perfformiad yr ysgol yn well na'r teulu yn y Gymraeg a gwyddoniaeth yn 2008 a 2010 a pherfformiad y bechgyn yn well na'r merched ym mathemateg yn 2010. Nid oedd yr un disgybl wedi cyrraedd lefel tri ym mathemateg a gwyddoniaeth rhwng 2007 a 2009.

Mae canlyniadau asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn gyson uchel yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf a'r tueddiad yn y perfformiad tuag i fyny. Yn 2009 a 2010, roedd canran y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) yn sylweddol uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion a Chymru yn y Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Nid oes unrhyw wahaniaethau amlwg rhwng bechgyn a merched.

Yn 2010 roedd y canran a gyrhaeddodd lefel uwch na'r disgwyl (lefel 5) ym mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch o gymharu â chyfartaleddau'r teulu, lleol a Chymru.

Wrth gymharu canlyniadau cyfnod allweddol 2 gydag ysgolion tebyg ar draws Cymru o safbwynt cinio am ddim, mae canlyniadau'r ysgol ar gyfer y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn uchel yn 2009 a 2010.

# Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Ymatebodd 12 o rieni neu ofalwyr i'r holiadur. Roedd pawb yn fodlon â'r ysgol, yn cytuno bod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn cytuno bod eu plant wedi derbyn cymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuasant yn yr ysgol. Roedd pawb yn cytuno bod staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch; ond roedd lleiafrif yn anghytuno eu bod yn derbyn gwybodaeth yn gyson am gynnydd eu plant. Roedd pawb yn teimlo bod y staff yn disgwyl i'w plant weithio'n galed ac i wneud eu gorau, bod gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plant yn dysgu yn yr ysgol, a bod eu plant yn gwneud cynnydd da.

Roedd pawb yn teimlo bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol; bod disgyblion yn ymddwyn yn dda; a bod yr addysgu'n dda. Hefyd, roedd pawb yn teimlo bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd; eu bod yn teimlo'n gyfforddus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem; bod yr ysgol yn helpu'u plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb; bod eu plant wedi'u paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf; a bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. Roedd pob un yn meddwl bod cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
Roedd pob un yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion ac yn teimlo bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Ymatebodd 29 o ddisgyblion i'r holiadur. Roedd yr holl ddisgyblion yn teimlo yn ddiogel yn yr ysgol; eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol; bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff yn rheolaidd; bod yr athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd; a bod digon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith. Roedd rhan fwyaf yn datgan bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio a'u bod yn gwybod gyda phwy i siarad os roeddent yn poeni neu'n gofidio. Roedd llawer yn datgan fod gwaith catref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol a llawer yn teimlo bod eraill yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Dr David Gareth Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Carolyn Thomas | Arolygydd Tîm |
| Mr Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Mrs Dilys Ellis Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mrs Annwen Watkins | Enwebai’r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

## Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |